ATODLEN 1

Yr Amodau Mewnforio

# RHAN I

## DARPARIAETHAU SY'N GYFFREDIN I NIFER O CATEGORÏAU O GYNNYRCH

### Terfynau gweddillion uchaf a halogion

**1.** Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2377/90 sy'n gosod gweithdrefn Gymunedol ar gyfer sefydlu terfynau gweddillion uchaf cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol mewn bwydydd sy'n dod o anifeiliaid (OJ Rhif L224, 18.8.90, t.1), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1646/2004 (OJ Rhif L296, 21.9.2004, t.5).

**2.** Cyfarwyddeb y Cyngor 96/23/EC ar fesurau i fonitro sylweddau penodol a'u gweddillion mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid a'r Cyfarwyddebau sy'n ei dirymu, sef Cyfarwyddebau 85/358/EEC a 86/469/EEC a Phenderfyniadau 89/187/EEC a 91/664/EEC (OJ Rhif L125, 23.5.96, t.10) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan y Ddeddf ynghylch amodau ymaelodi'r Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithiwania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Poland, Gweriniaeth Slofenia a'r Weriniaeth Slofac a'r addasiadau i'r Cytuniadau y mae'r Undeb Ewropeaidd wedi'i seilio arnynt (OJ Rhif L236, 23.9.2003, t.33) ("yr Act Ymaelodi").

**3.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 466/2001 sy'n gosod y lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn bwydydd (OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 563/2002 (OJ Rhif L86, 3.4.2002, t.5).

**4.** Penderfyniad y Comisiwn 2004/432/EC ar gymeradwyo cynlluniau monitro gweddillion a ddanfonwyd gan drydydd gwledydd yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 96/23/EC (OJ Rhif L154, 30.4.2004, t.44).

### Enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy

**5.** Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli, a difa enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol (OJ Rhif L147, 31.5.2001, t.1) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1492/2004, (OJ Rhif L274, 24.8.2004, t.3).

### Ardystiadau iechyd ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd

**6.** Penderfyniad y Comisiwn 2003/56/EC ar dystysgrifau iechyd ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid o Seland Newydd (OJ Rhif L22, 25.1.2003, t.38) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2003/669/EC (OJ Rhif L237, 24.9.2003, t.7).

### Rheolau iechyd anifeiliaid ar fewnforio cynhyrchion o anifeiliaid i gael eu bwyta gan ddyn.

**7.** Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/99/EC yn gosod rheolau iechyd anifeiliaid sydd yn rheoli cynhyrchu, prosesu, dosbarthu a chyflwyno cynhyrchion sydd yn dod o anifeiliaid ar gyfer eu bwyta gan ddyn (OJ Rhif L18, 23.1.2003, t. 11).